



# Polisi'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

## Amlinelliad

Mae'r polisi hwn yn rhoi gwybodaeth bwysig ynglŷn â'r canlynol:

- egwyddorion diogelu data y mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gydymffurfio â nhw
- yr hyn a olygir gan wybodaeth (neu ddata) bersonol a gwybodaeth (neu ddata) bersonol sensitif
- sut rydym yn casglu, yn defnyddio ac (yn y pen draw) yn dileu gwybodaeth bersonol a gwybodaeth bersonol sensitif yn unol â'r egwyddorion diogelu data
- ble y gellir dod o hyd i wybodaeth preifatrwydd fanylach, e.e. ynglŷn â'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu a'i defnyddio amdanoch chi, sut y caiff ei defnyddio, ei storio a'i throsglwyddo, at ba ddibenion, y camau a gymerwyd i gadw'r wybodaeth honno yn ddiogel, a pha mor hir y caiff ei chadw
- eich hawliau a'ch ymrwymadau mewn perthynas â diogelu data
- canlyniadau methiant i gydymffurfio â'r polisi hwn

## Datganiad a diben

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn casglu, yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol (y cyfeirir ati hefyd fel data) ynglŷn ag aelodau o'r cyhoedd, trydydd partïon eraill, cyflogeion cyffredol a blaenorol, gweithwyr dros dro a gweithwyr asiantaeth, contractwyr, a gwirfoddolwyr at nifer o ddibenion cyfreithlon penodol.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut rydym yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau diogelu data ac yn ceisio diogelu gwybodaeth bersonol. Ei ddiben hefyd yw sicrhau bod y staff yn deall ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau ynglŷn â chasglu, defnyddio a dileu gwybodaeth bersonol y gallai fod ganddynt fynediad iddi fel rhan o'u gwaith.

Rydym yn ymrwymedig i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau diogelu data ac i fod yn gryno, yn glir ac yn dryloyw ynglŷn â sut rydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol yn ymwneud â'n gweithlu, a sut (a phryd) rydym yn dileu'r wybodaeth honno pan nad oes ei hangen mwyach.

Mae'r swyddog diogelu data yn gyfrifol am hysbysu a chynghori Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei rwymedigaethau ynglŷn â diogelu data, ac ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau hynny. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am gynnwys y polisi hwn, neu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, dylech gysylltu â'r swyddog diogelu data [noder manylion o ran sut y gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, e.e. e-bost a rhif ffôn].

## Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff a chontractwyr Cyfoeth Naturiol Cymru a staff asiantaeth sy'n gweithio ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys gweithwyr dros dro, gweithwyr asiantaeth a gwirfoddolwyr, ac i'r holl ddata personol a brosesir gennym ar unrhyw adeg, mewn unrhyw ddull neu mewn unrhyw fformat, a'r holl ddulliau o ddal a storio'r wybodaeth, gan gynnwys ond heb gael eu cyfyngu i'r canlynol:

- data papur a gafodd ei storio â llaw
- cyfrifon e-bost
- data a gedwir ar gymwysiadau cyfrifiadurol a chronfeydd data
- data o deledu cylch cyfyng a systemau cofnodi clywedol neu weledol eraill, gan gynnwys tapiau
- data a gedwir mewn storfeydd archifau
- data a gedwir ar gryno ddisg, cof bach, ac ati

Dylai staff gyfeirio at bolisiau perthnasol eraill, gan gynnwys mewn perthynas â'r rhyngwyd, e-bost a chyfathrebu, monitro, cyfryngau cymdeithasol, diogelwch gwybodaeth, cadw data a gwybodaeth am gofnodion troseddol, asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data, a hysbysiadau preifatrwydd, sy'n cynnwys gwybodaeth bellach ynglŷn â diogelu gwybodaeth bersonol yn y cyd-destunau hynny.

## Diffiniadau

### gwybodaeth am gofnodion troseddol mynediad diawdurdod at ddata

mae'n golygu gwybodaeth bersonol yn ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau, cyhuddiadau, achosion, a mesurau diogelwch perthnasol

mae'n golygu mynediad diawdurdod at ddata sy'n arwain at wybodaeth bersonol, yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon, yn cael ei dinistrio, ei cholli, ei haddasu, neu ei datgelu mewn modd anawdurdodedig – neu at bobl yn cael mynediad at y wybodaeth honno

### gwrthrych data

mae'n golygu'r unigolyn y mae'r wybodaeth bersonol yn ymwneud ag ef

### gwybodaeth bersonol

(sy'n cael ei galw'n ddata personol o dro i dro) mae'n golygu gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn y gellir ei adnabod (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o'r wybodaeth honno

### prosesu gwybodaeth

mae'n golygu casglu, cofnodi, trefnu, storio, addasu, adalw, datgelu a/neu ddinistrio gwybodaeth, neu ei defnyddio neu wneud unrhyw beth â hi

### ffugenwau

mae'n golygu'r broses lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn y fath fodd fel na ellir ei defnyddio i adnabod unigolyn heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol, a gedwir ar wahân ac sy'n destun mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau na all y wybodaeth bersonol gael ei phriodoli i unigolyn y gellir ei adnabod

### gwybodaeth bersonol sensitif

(sy'n cael ei hadnabod o dro i dro fel 'categoriâu arbennig o ddata personol' neu 'data personol sensitif') mae'n golygu gwybodaeth bersonol yn ymwneud â tharddiad hil neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth enetig,

gwybodaeth fiometrigr (lle y caiff ei defnyddio i adnabod unigolyn), a gwybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd, bywyd rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn

## Egwyddorion diogelu data

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data canlynol wrth brosesu gwybodaeth bersonol sensitif:

- byddwn ni'n prosesu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw
- byddwn ond yn casglu gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon, ac ni fyddwn yn ei phrosesu mewn ffordd nad yw'n gyson â'r dibenion cyfreithlon hynny
- byddwn ond yn prosesu'r wybodaeth bersonol sy'n ddigonol, yn berthnasol ac yn angenrheidiol ar gyfer y dibenion perthnasol
- byddwn ni'n cadw gwybodaeth bersonol gywir a chyfredol ac yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod gwybodaeth bersonol anghywir yn cael ei dileu neu ei chywiro ar unwaith
- byddwn ni'n cadw gwybodaeth bersonol (ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau data) am gyfnod nad yw'n hirach nag sydd angen i'r dibenion y caiff yr wybodaeth ei phrosesu ar eu cyfer
- byddwn yn cymryd mesurau technegol a sefydliadol priodol i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn cael ei diogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon, ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol

## Y sail ar gyfer prosesu data personol

Mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd prosesu a chyn i'r prosesu ddechrau am y tro cyntaf ac yna'n rheolaidd tra bo'n parhau, byddwn yn gwneud y canlynol:

- adolygu dibenion y gweithgaredd prosesu penodol, ac yn dethol y sail gyfreithiol (neu'r seiliau) fwyaf priodol ar gyfer y prosesu hwnnw, h.y.:
  - mae gwrthrych y data wedi rhoi cydsyniad i'r prosesu
  - mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract y mae gwrthrych y data yn rhan ohono neu er mwyn cymryd camau ar gais gwrthrych y data cyn ymrwymo i'r contract
  - mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddarostyngedig iddi
  - mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu unigolyn naturiol arall
  - mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu weithredu awdurdod swyddogol
  - mae'r prosesu yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau cyfreithlon Cyfoeth Naturiol Cymru neu drydydd parti, ac eithrio pan fo'r buddiannau hynny wedi'u trechu gan fuddiannau hawliau sylfaenol a rhyddid gwrthrych y data
- ac eithrio pan fo'r prosesu yn seiliedig ar gydsyniad, bodloni ein hunain fod y prosesu yn angenrheidiol at ddiben y sail gyfreithiol berthnasol (h.y. nad oes unrhyw ffordd resymol arall o gyflawni'r diben hwnnw)
- cofnodi ein penderfyniad ynglŷn â pha sail gyfreithiol sy'n berthnasol, er mwyn helpu i ddangos ein cydymffurfiaeth â'r egwyddorion diogelu data

- cynnwys gwybodaeth am ddibenion y prosesu a'r sail gyfreithiol ar ei gyfer yn ein hysbysiad(au) preifatrwydd perthnasol
- pan fo gwybodaeth bersonol sensitif yn cael ei phrosesu, nodi hefyd amod gyfreithiol arbennig ar gyfer prosesu'r wybodaeth honno, a'i chofnodi
- pan fo gwybodaeth am drosedd yn cael ei phrosesu, nodi hefyd amod gyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth honno, a'i chofnodi

## Gwybodaeth bersonol sensitif

Cyfeirir at wybodaeth bersonol sensitif o dro i dro fel 'categoriâu arbennig o ddata personol' neu 'data personol sensitif'.

O dro i dro, gallai fod angen i Cyfoeth Naturiol Cymru brosesu data personol sensitif. Byddwn ond yn prosesu gwybodaeth bersonol sensitif os yw'r canlynol yn wir:

- mae gennym sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny, e.e. mae'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract cyflogaeth, er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol Cyfoeth Naturiol Cymru, neu at ddibenion cyfreithlon Cyfoeth Naturiol Cymru
- mae un o'r amodau arbennig ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol sensitif yn berthnasol, e.e.:
  - mae gwrthrych y data wedi rhoi cydsyniad clir
  - mae'r prosesu yn angenrheidiol at ddibenion gweithredu hawliau neu rwymedigaethau cyfraith cyflogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru neu wrthrych y data
  - mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data, ac nid yw gwrthrych y data yn meddu ar y gallu corfforol i roi cydsyniad
  - mae'r prosesu yn ymwneud â data personol sydd yn amlwg wedi cael ei ryddhau'n gyhoeddus gan wrthrych y data
  - mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn honiadau cyfreithiol
  - mae'r prosesu yn angenrheidiol at ddibenion budd cyhoeddus tra phwysig

Cyn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol sensitif, mae'n rhaid i staff hysbysu'r swyddog diogelu data o'r prosesu arfaethedig, er mwyn i'r swyddog diogelu data allu asesu a yw'r prosesu'n cydymffurfio â'r meini prawf a nodir uchod.

Ni chaiff gwybodaeth bersonol sensitif ei phrosesu tan:

- fod yr unigolyn wedi'i hysbysu'n briodol (drwy hysbysiad preifatrwydd neu fel arall) o natur y prosesu, dibenion ei wneud, a'r sail gyfreithiol ar ei gyfer

Mewn perthynas â gwybodaeth bersonol sensitif, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau a amlinellir yn y paragraffau uchod i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data.

## Asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data

Pan fo prosesu yn debygol o arwain at risg uchel i hawliau diogelu data unigolyn (e.e. pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu defnyddio ffurf newydd o dechnoleg), byddwn, cyn dechrau'r prosesu, yn cynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data er mwyn asesu:

- a yw'r prosesu yn angenrheidiol ac yn gymesur mewn perthynas â'i ddiben

- y risgiau i unigolion
- pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau hynny a diogelu gwybodaeth bersonol

Cyn bod unrhyw ffurf newydd o dechnoleg yn cael ei chyflwyno, dylai'r rheolwr sy'n gyfrifol gysylltu â'r swyddog diogelu data er mwyn cynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data.

## Dogfennau a chofnodion

Byddwn ni'n cadw cofnodion ysgrifenedig o'r gweithgareddau prosesu sy'n risg uchel, h.y. a allai arwain at risg i hawliau a rhyddid unigolion neu'n ymwneud â gwybodaeth bersonol sensitif neu wybodaeth am gofnodion troseddol, gan gynnwys:

- enw a manylion y sefydliad perthnasol (a phan fo'n berthnasol, y rheolyddion eraill, a'r swyddog diogelu data)
- dibenion y prosesu
- disgrifiad o'r categorïau o unigolion a chategorïau o ddata personol
- categorïau derbynwyr y data personol
- pan fo'n berthnasol, manylion trosglwyddiadau i drydydd gwledydd, gan gynnwys cofnod o'r mesurau diogelu wrth drosglwyddo sydd ar waith
- pan fo'n bosib, amserlenni cadw
- pan fo'n bosib, disgrifiad o'r mesurau diogelwch technegol a sefydliadol

Fel rhan o'n cofnod o weithgareddau prosesu, rydym yn eu cofnodi, neu'n cysylltu â dogfennau, ar y canlynol:

- gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer hysbysiadau preifatrwydd
- cofnodion cydsyniad
- contractau gyda'r rheolydd/prosesydd
- lleoliad gwybodaeth bersonol
- asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data
- cofnodion o fynediadau diawdurdod at ddata

Os ydym yn prosesu gwybodaeth bersonol sensitif neu wybodaeth am gofnodion troseddol, byddwn yn cadw cofnodion ysgrifenedig o'r canlynol:

- diben(ion) perthnasol ar gyfer y gwaith prosesu, gan gynnwys (lle y bo'n ofynnol) pam ei fod yn angenrheidiol at y diben hwnnw
- y sail gyfreithiol ar gyfer ein prosesu
- p'un a ydym yn cadw a dileu'r wybodaeth bersonol yn unol â'n dogfen bolisi ac, os nad ydym, y rhesymau pam nad ydym yn dilyn ein polisi

Byddwn yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu a diweddarau ein dogfennau yn unol â hynny. Gallai hynny gynnwys:

- cynnal archwiliadau gwybodaeth i ddarganfod pa wybodaeth bersonol mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei dal
- adolygu ein polisïau, gweithdrefnau, contractau a chytundebau i fynd i'r afael â meysydd megis cadw, diogelwch a rhannu data

## Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r holl staff yn gyfrifol am helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i fodloni ei ymrwymïadau diogelu data.

Os oes gennych fynediad at wybodaeth bersonol, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- cael mynediad at y wybodaeth bersonol y mae gennych yr awdurdod i gael mynediad ati yn unig, a dim ond ar gyfer dibenion awdurdodedig
- caniatáu i staff eraill gael mynediad at wybodaeth bersonol os oes ganddynt yr awdurdod priodol yn unig
- caniatáu i unigolion nad ydynt yn staff Cyfoeth Naturiol Cymru gael mynediad at wybodaeth bersonol os oes gennych yr awdurdod penodol yn unig i wneud hynny oddi wrth y swyddog diogelu data
- cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel (e.e. drwy gydymffurfio â'r rheolau ar fynediad at eiddo, mynediad at gyfrifiaduron, diogelu cyfrineiriau a storio ffeiliau yn ddiogel, a dinistrio a rhagofalon eraill a amlinellir ym mholisi diogelu gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru)
- peidio â gwaredu gwybodaeth bersonol, neu ddyfeisiau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol (neu y gellir eu defnyddio i gael mynediad ati) o adeiladau Cyfoeth Naturiol Cymru oni bai fod mesurau diogelwch priodol ar waith (megis ffugenwau, amgryptio neu ddiogelu cyfrineiriau) i ddiogelu'r wybodaeth a'r ddyfais
- peidio â storio gwybodaeth bersonol ar yriannau lleol neu ar ddyfeisiau personol a ddefnyddir at ddibenion gwaith

Dylech gysylltu â'r swyddog diogelu data os ydych chi'n pryderu neu'n amau bod un o'r isod wedi digwydd (neu yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd):

- prosesu data personol heb sail gyfreithiol ar gyfer ei brosesu, neu, yn achos gwybodaeth bersonol sensitif,
- unrhyw fynediad diawdurdod at ddata
- mynediad at wybodaeth bersonol heb yr awdurdodiad priodol
- gwybodaeth bersonol heb ei chadw neu ei dileu'n ddiogel
- gwaredu gwybodaeth bersonol, neu ddyfeisiau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol (neu y gellir eu defnyddio i gael mynediad ati) o adeiladau Cyfoeth Naturiol Cymru heb y mesurau diogelwch priodol ar waith
- unrhyw achos arall o dorri'r polisi hwn neu unrhyw rai o'r egwyddorion diogelu data

## Diogelwch gwybodaeth

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol yn unol â pholisiau Cyfoeth Naturiol Cymru i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel, yn arbennig er mwyn diogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol. Gallai'r rhain gynnwys:

- sicrhau bod gwybodaeth bersonol o dan ffugenwau neu wedi'i hamgryptio, lle y bo'n bosibl
- sicrhau cyfrinachedd, cywirdeb, argaeledd a gwydnwch parhaus y systemau a'r gwasanaethau prosesu
- pe bai digwyddiad ffisegol neu dechnegol, sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad at wybodaeth bersonol mewn modd amserol
- proses ar gyfer profi, asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau technegol a sefydliadol ar gyfer sicrhau diogelwch y prosesu yn rheolaidd

Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio sefydliadau allanol i brosesu gwybodaeth bersonol ar ei ran, mae angen gweithredu trefniadau diogelwch ychwanegol mewn contractau gyda'r sefydliadau hynny i ddiogelu diogelwch gwybodaeth bersonol. Yn

benodol, mae'n rhaid i gontractau gyda sefydliadau allanol gynnwys y darpariaethau canlynol:

- gall y sefydliad weithredu ar gyfarwyddyd ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig
- mae'r rheini sy'n prosesu'r data yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd
- mae mesurau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau diogelwch y prosesu
- mae isgontractwyr ond yn cael eu cyflogi gyda chydsyniad blaenorol Cyfoeth Naturiol Cymru ac o dan gontract ysgrifenedig
- bydd y sefydliad yn cynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddarparu mynediad at y gwrthrych a chaniatáu i unigolion arfer eu hawliau o ran diogelu data
- bydd y sefydliad yn cynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru i fodloni ei ymrwymadau o ran diogelwch prosesu, hysbysu am achosion o fynediad diawdurdod at ddata, ac asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data
- bydd y sefydliad yn dileu neu'n dychwelyd yr holl wybodaeth bersonol i Cyfoeth Naturiol Cymru yn ôl y gofyn ar ddiwedd y contract
- bydd y sefydliad yn caniatáu i archwiliadau ac arolygiadau gael eu cynnal, yn darparu pa bynnag wybodaeth sydd ei hangen ar Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y ddau ohonynt yn diwallu eu hymrwymadau diogelu data, a dweud wrth Cyfoeth Naturiol Cymru ar unwaith os gofynnir iddo wneud rhywbeth sy'n torri cyfraith diogelu data

Cyn yr ymrwymir i unrhyw gytundeb newydd sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth bersonol gan sefydliad allanol, neu y caiff cytundeb sy'n bodoli eisoes ei addasu, mae'n rhaid i'r staff perthnasol dderbyn cymeradwyaeth o'i delerau gan y swyddog diogelu data.

## Storio a chadw gwybodaeth bersonol

Bydd gwybodaeth bersonol (a gwybodaeth bersonol sensitif) yn cael ei chadw'n ddiogel yn unol â [pholisi diogelwch gwybodaeth] Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ni ddylai gwybodaeth bersonol (a gwybodaeth bersonol sensitif) gael ei chadw yn hirach na'r angen. Bydd y cyfnod o amser y dylid cadw'r data yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gan gynnwys y rhesymau pam roedd y wybodaeth bersonol wedi'i chasglu. Dylai'r staff ddilyn [polisi cadw cofnodion] Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n amlinellu'r cyfnod cadw perthnasol. Pan fo unrhyw ansicrwydd, dylai'r staff ymgynghori â'r swyddog diogelu data.

Bydd gwybodaeth bersonol (a gwybodaeth bersonol sensitif) nad oes ei hangen bellach yn cael ei dileu'n barhaol o'n systemau gwybodaeth a chaiff unrhyw gopïau caled eu dinistrio'n ddiogel.

## Mynediadau diawdurdod at ddata

Gallai mynediad diawdurdod at ddata fod ar sawl ffurf wahanol, megis:

- colli neu ddwyn data neu offer lle y caiff gwybodaeth bersonol ei storio
- mynediad diawdurdod i wybodaeth bersonol neu ddefnydd ohoni naill ai gan aelod o staff neu drydydd parti
- colli data sy'n deillio o fethiant offer neu systemau (gan gynnwys caledwedd a meddalwedd)
- gwall dynol, fel dileu neu addasu data yn ddamweiniol
- amgylchiadau annisgwyl, fel tân neu lifogydd

- ymosodiadau bwriadol ar systemau TG, fel hacio, firsau neu gynllwyniau gwerwydo
- troseddau 'blagio', lle y bo gwybodaeth yn cael ei chasglu drwy dwyllo'r sefydliad sy'n ei dal

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud y canlynol:

- hysbysu, fel sy'n ofynnol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r mynediad diawdurdod at ddata heb oedi gormodol a, lle y bo'n bosibl, o fewn 72 awr i fod yn ymwybodol ohono, os yw'n debygol o arwain at risg i hawliau a rhyddid unigolion
- hysbysu'r unigolion a gafodd eu heffeithio os yw'r mynediad diawdurdod at ddata yn debygol o arwain at risg uchel i'w hawliau a rhyddid ac mae'n ofynnol eu hysbysu yn ôl y gyfraith

## Trosglwyddiadau rhyngwladol

Ni fyddwn yn trosglwyddo data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, sy'n cynnwys gwledydd yn yr Undeb Ewropeaidd a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

## Hyfforddiant

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod y staff wedi'u hyfforddi'n briodol o ran eu cyfrifoldebau diogelu data. Bydd unigolion y mae arnynt angen mynediad rheolaidd at wybodaeth bersonol fel rhan o'u rolau, neu sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi hwn neu ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan y polisi hwn, yn derbyn hyfforddiant ychwanegol i'w helpu i ddeall eu dyletswyddau a sut i gydymffurfio â nhw.

## Canlyniadau methu â chydymffurfio

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd cydymffurfiaeth â'r polisi hwn o ddifrif. Mae methiant i gydymffurfio â'r polisi hwn yn:

- rhoi unigolion y mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu o dan risg
- dod â risg o sancsiynau sifil a throseddol ar gyfer yr unigolyn a Cyfoeth Naturiol Cymru
- gallu bod, mewn rhai amgylchiadau, yn gyfystyr â throsedd gan yr unigolyn

Oherwydd pwysigrwydd y polisi hwn, bydd methiant cyflogai i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad sydd ynddo yn cael ei drin fel pe bai'n torri Cod Ymddygiad Cyfoeth Naturiol Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am unrhyw beth yn y polisi hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r swyddog diogelu data.

Mae'r swyddog diogelwch yn gyfrifol am reoli ac ymchwilio i unrhyw ddatgeliadau data personol anawdurdodedig gwirioneddol neu a ddrwgdybir ac am argymhell mesurau i atal digwyddiadau neu achosion o fynediad diawdurdod o'r fath rhag digwydd eto.

Mae TGCh yn gyfrifol am gynghori'r busnes ar y mesurau a'r rheolaethau technegol sy'n ofynnol i ddiogelu data personol a brosesir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac i ddarparu rhwydwaith ac offer TGCh diogel.



Mae archwiliad mewnol yn gyfrifol am archwilio'r prosesau busnes, gweithdrefnau gweithredu ac arferion gweithio Cyfoeth Naturiol Cymru a'i ddarparwyr gwasanaeth sy'n effeithio ar brosesu data personol, er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwn.

## Gwybodaeth berthnasol arall

Gallai sefydliadau sydd â swyddogaeth atal trosedd, gorfodi'r gyfraith neu gasglu trethi fel yr heddlu, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu'r Adran Gwaith a Phensiynau ei gwneud yn ofynnol i ryddhau data personol a gesglir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer atal neu ganfod trosedd, a gallai Cyfoeth Naturiol Cymru ryddhau'r wybodaeth hon drwy wneud cais am esemptiad o dan y GDPR. Pe baech yn derbyn cais o'r fath, mae'n rhaid i'r swyddog diogelu data gael ei hysbysu ymlaen llaw.

Polisiâu, gweithdrefnau a chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru:

teledu cylch cyfyng

desg glir

system rheoli dogfennau

e-bost

diogelwch TGCh

hysbysiad preifatrwydd

asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data

mynediad o bell

cyfryngau symudol

amserlen cadw

gwaredu diogel

[dosbarthiadau diogelwch](#)

polisi diogelwch

data diogelwch a digwyddiadau gwybodaeth

cais gwrthrych am wybodaeth

## Cyswllt

Uwch-swyddog diogelu data

## Cymeradwyaeth

Cyfarwyddwr llywodraethu

## Fersiwn

Fersiwn 1. Cyhoeddwyd ym mis Mai 2018.

I'w hadolygu gyntaf ymhen chwe mis, ac yna bob dwy flynedd. Caiff diwygiadau eu gwneud yn gynt lle bo newid perthnasol mewn deddfwriaeth neu ofyniad busnes yn digwydd ac yn dilyn trafodaeth gyda'r undebau llafur cynrychiadol.